

Rhif: WG34792



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Aseidiadau Athrawon) (Cymru) 2018

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018

Cynulleidfa	Cyrff addysg sy'n ymwneud ag, neu sydd â diddordeb mewn, Asesiad Athrawon yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, consortia addysg ranbarthol, undebau'r athrawon, cyrff dyfarnu, ymarferwyr a chyrrff cyhoeddus.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018.
Camau i'w cymryd	Dim – Er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	<p>Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion Y Gangen Gwybodaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru Parc Cathays 2 Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 03000 625014</p> <p>e-bost: IMS@llyw.cymru</p> <p> @LIC_Addysg</p> <p> Facebook/AddysgCymru</p>
Copiau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau
Dogfennau cysylltiedig	Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (2017)

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Trosolwg o ymatebion	3
3. Themâu cyffredin	4
Cadarnhaol	4
Negyddol	4
4. Cwestiynau'r ymgynghoriad a dadansoddiad o ymatebion	5
Cwestiwn 1	5
Dadansoddiad cryno	5
Ymateb Llywodraeth Cymru	5
Cwestiwn 2	7
Dadansoddiad cryno	7
Cyfleoedd	7
Heriau	7
Ymateb Llywodraeth Cymru	8
Cwestiwn 3	9
Dadansoddiad cryno	9
Themâu cyffredin	9
Ymateb Llywodraeth Cymru	9
Cwestiwn 4	11
Dadansoddiad cryno	11
Ymateb Llywodraeth Cymru	12
Cwestiwn 5	13
Dadansoddiad cryno	13
Ymateb Llywodraeth Cymru	13
Cwestiwn 6	15
Dadansoddiad cryno	15
Ymateb Llywodraeth Cymru	15
Cwestiwn 7	17
Dadansoddiad cryno	17
Ymateb Llywodraeth Cymru	18
Cwestiwn 8	19
Dadansoddiad cryno	19
Ymateb Llywodraeth Cymru	19
Atodiad: Rhestr o ymatebwyr yn ôl sefydliad	20

1. Cyflwyniad

Cynigiodd yr ymgynghoriad na fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi data Asesiadau Athrawon a data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol islaw'r lefel genedlaethol fel mater o drefn o 2018/19 ymlaen. O ganlyniad, ni fyddai'r data hwn yn cael ei gynnwys yn Adroddiadau Cymharol Ysgolion a Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Os cytunir i'r cynigion, bydd y rheoliadau yn dileu gofynion i sefydliadau ddefnyddio Asesiadau Athrawon a data Profion.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau rhanddeiliaid ar Reoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018. Lansiodd yr ymgynghoriad ar 14 Tachwedd 2017; daeth i ben ar 30 Ionawr 2018 ar ôl cyfnod ymgynghori cyhoeddus ffurfiol o un wythnos ar ddeg.

- Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru, a dosbarthwyd y manylion i rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn newidiadau arfaethedig i'r defnydd o ddata Asesiadau Athrawon.
- Cafodd yr holl ymatebion eu dychwelyd trwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein neu'r ffurflen ymateb i'w lawrlwytho. Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried; gweler crynodeb o ymatebion rhanddeiliaid isod.

2. Trosolwg o ymatebion

Cafwyd cyfanswm o **89** o ymatebion i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid amrywiol. Mae'r tabl isod yn dosbarthu'r ymatebwyr yn ôl math o sefydliad:

Math o Ymatebydd	Nifer yr Ymatebion	%
Ysgol Gynradd	57	64.1
Consortiwm	5	5.6
Gweithiwr Addysg Proffesiynol	3	3.4
Sector Addysg Uwch	1	1.1
Llywodraeth Leol	4	4.5
Rhiant / gofalwr	3	3.3
Ysgol Uwchradd	9	10.1
Undeb Athrawon	2	2.3
Sefydliad Sector Cyhoeddus Arall	2	2.3
Arall	3	3.3
CYFANSWM	89	100

Mae rhestr lawn o ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad 1.

3. Themâu cyffredin

Cododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad amrywiaeth eang o faterion, cwestiynau ac awgrymiadau yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylwadau ar bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r themâu allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys:

Cadarnhaol

- Mae hwn yn gyfle da i symud ymlaen a rhoi plant yn gyntaf
- Mae gormod o bwyslais ar ganlyniadau perfformiad ysgolion ar hyn o bryd
- Bydd dileu data cymharol yn fanteisiol i ysgolion
- Mae'n gyfle i gydweithio/alinio prosesau cydweithio
- Dylai asesiadau ganolbwyntio ar wella perfformiad disgyblion ac nid gwella proffil data ysgolion
- Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar werth ychwanegol a chynnydd o'i gymharu â man cychwyn dysgwyr yn hytrach na lefelau sy'n cael eu cymharu ag ysgolion eraill

Negyddol

- Perygl o golli'r gallu i fesur cynnydd yn y Gymraeg mewn addysg
- Perygl o golli'r gallu i olrhain a nodi tangyflawniad yn gynnar
- Y posibilrwydd o gynyddu llwyth gwaith ysgolion wrth ddod o hyd i wybodaeth gymharol at ddibenion hunanwerthuso; yr angen i sicrhau na fydd consortia a chynghorwyr herio yn gofyn am wybodaeth ychwanegol
- Perygl anfwriadol o gynnydd mewn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth
- Gall pwyslais ar ddefnyddio Asesiadau Athrawon fel mesur olygu y bydd ysgolion/athrawon yn parhau i ganolbwyntio ar berfformiad, yn hytrach na'u defnyddio i wella dysgu.

4. Cwestiynau'r ymgynghoriad a dadansoddiad o ymatebion

Cwestiwn 1

C1.	A ydych chi'n credu y bydd y diwygiadau arfaethedig i reoliadau sy'n bodoli'n barod yn sicrhau bod asesu'n canolbwyntio ar wella dysgu?		
Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cyfanswm
63	10	16	89

Dadansoddiad cryno

Cytunodd tua 71% o ymatebwyr y bydd y diwygiadau arfaethedig yn sicrhau bod asesiadau'n canolbwyntio ar wella dysgu. Roedd 11% yn anghytuno a 18% ddim yn cytuno neu'n anghytuno.

Un o'r themâu allweddol cyffredin oedd y ffaith fod gormod o bwyslais ar ganlyniadau perfformiad ysgolion ar hyn o bryd, bod ysgolion yn treulio gormod o amser yn sicrhau eu bod nhw'n cael eu gosod yn y chwarteli gorau, ac nad ydynt yn canolbwyntio digon ar anghenion pob disgybl unigol. Nododd llawer o'r sylwadau y bydd dileu'r broses o gymharu ysgolion yn fanteisiol ac yn lleihau'r pwysau ar ysgolion.

Roedd yr ymatebwyr a anghytunodd yn pryderu'n bennaf am ddiffyg data cymharol o bosibl er mwyn gwerthuso perfformiad a'r effaith ar hunanwerthuso.

Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys ymgysylltu â rhieni/gofalwyr er mwyn datblygu cydweithio a dealltwriaeth o'r wybodaeth y byddant yn ei derbyn.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod rhoi'r gorau i gyhoeddi data Asesiadau Athrawon a data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol fel mater o drefn yn gam i'r cyfeiriad cywir. Teimlwyd bod osgoi pennu disgwyliadau anymarferol ar gyfer plant ar ddiwedd y cyfnodau allweddol yn fwy teg i ysgolion sydd â phlant ag AAA.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae modd defnyddio Asesiadau Athrawon at ddibenion gwybodaeth, e.e. er mwyn datblygu polisiau gwella ysgolion ac ati, ond ni ellir eu defnyddio at ddibenion atebolrwydd ysgolion islaw'r lefel genedlaethol. Yn yr hirdymor, bydd y newidiadau'n helpu i baratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru, yn unol ag argymhellion yr Athro Donaldson yn y ddogfen *Dyfodol Llwyddiannus*.

Trwy newid pwyslais Asesiadau Athrawon o gymharu ysgolion yn ôl i asesu ar gyfer dysgu, dylai'r cynnig fynd ymhellach i ddatblygu talentau a galluoedd plant. Ein hamcan yw sicrhau manteision i ddysgwyr trwy bwysleisio prif amcan asesiadau, sef darparu gwybodaeth sy'n gallu llywio penderfyniadau ar sut i ddatblygu dysgu pobl ifanc, a rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am ddatblygiad eu plant. Pan ddefnyddir asesiadau at ddibenion dysgu, mae'n golygu bod addysgu yn addasol, yn canolbwyntio ar y dysgwr ac yn helpu i godi safonau i bawb. Mae'n golygu bod ysgolion a chyrff eraill yn gallu gwneud cynlluniau a gwelliannau er

budd pob dysgwr.

Wrth wneud hyn, dylai asesiadau wella dysgu dysgwyr, addysgu athrawon a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr.

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu ag awdurdodau lleol a chonsortia, fe'n hysbyswyd bod unedau data pob awdurdod lleol eisoes yn defnyddio systemau i ddadansoddi'r data hwn, felly ni fyddent yn wynebu diffyg tablau a siartiau cryno gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, nododd awdurdodau lleol a chonsortia fod elfen o ddyblygu yn debygol i fod ar waith yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan, felly ni fydd problemau mawr yn deillio o roi'r gorau i gyhoeddi'r data. Mae sawl awdurdod lleol wedi dangos eu systemau dadansoddi i ni, a gallwn gadarnhau na fyddai angen unrhyw wybodaeth ychwanegol ar ysgolion.

Cwestiwn 2

C2.	Beth yw heriau a chyfleoedd y newidiadau arfaethedig?
-----	---

Dadansoddiad cryno

Ni atebodd 25 o'r ymatebwyr (28%) i C2. Ysgrifennodd un ymatebodd 'dim sylw'.

Cyfleoedd

- Bydd y newid yn arwain at lai o bwyslais ar atebolrwydd allanol a chystadleuaeth ddiangen, a bydd yn helpu consortia rhanbarthol i ganolbwyntio mwy ar gefnogi ysgolion
- Defnyddio asesiadau'n fwy effeithiol, a chyfle i ganolbwyntio ar ddysgu staff
- Os yw ysgolion yn cael mwy o gyfle i'w gwella eu hunain yn erbyn eu mesurau eu hunain, gall sail resymegol y cwricwlwm newydd gael cyfle gwirioneddol i lwyddo
- Sefydlu rhaglen 'Dyfodol Llwyddiannus' a'r ethos sy'n sylfaen iddi

Heriau

- Perygl y bydd llwyth gwaith ysgolion yn cynyddu wrth iddynt geisio dod o hyd i wybodaeth gymharol sydd ei hangen at ddibenion hunanwerthuso
- Gallu'r cyhoedd a sefydliadau perthnasol i ddadansoddi sefyllfa Llywodraeth Cymru o ran ei thargedau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg
- Ni fyddai ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn llwybr amgen derbynol – un awgrym oedd cyhoeddi Bwletin Ystadegol newydd sy'n cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i fonitro cynnydd yn ymwneud â'r Gymraeg mewn addysg
- Mae dros 35 o fannau mesur data o hyd. Bydd data arholiadau CA4 yn gymhleth iawn wrth ei gyfuno â'r cwricwlwm newydd
- Mae mwy o rieni sy'n byw mewn ardaloedd ger y ffin yn symud eu plant i ysgolion yn Lloegr. Mae hyn yn digwydd oherwydd canfyddiad bod y system addysg yn Lloegr yn canolbwyntio mwy ar gyraeddiad uchel ac yn pwysleisio'r meysydd craidd
- Y gallu i olrhain a nodi tangyflawniad. Bydd gorfod aros tan CA4 i gael data cymharol yn rhy hwyr ar gyfer carfannau o ddisgyblion. Bydd yn anodd i rieni wybod a yw'r ysgol yn darparu her addas ar gyfer disgyblion

Ymateb Llywodraeth Cymru

- O safbwynt enghreifftiau rhyngwladol, ar ôl trafod â chydweithwyr addysg yn Iwerddon, clywsom eu bod wedi derbyn nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o dan amodau tebyg yn y lle cyntaf, ond bod hynny wedi lleihau yn y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, un elfen o'r fframwaith gwerthuso ac atebolrwydd arfaethedig newydd yw 'ciplun gwerthuso' gan bob ysgol, a bydd hyn yn lleihau'r angen cyhoeddus am ddata a gwybodaeth ar lefel ysgol.
- Ni fydd **unrhyw newid** i'r broses gasglu, neu, felly, i'r wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei chadw. Dylid defnyddio data Asesiadau Athrawon yn bennaf at ddibenion asesiadau ffurfiannol yn yr ystafell ddosbarth. Trwy roi'r gorau i gyhoeddi data ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol, bydd cynnydd disgyblion unigol yn dod yn ganolbwynt Asesiadau Athrawon.
- Trwy'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, bydd yn ofynnol o hyd i awdurdodau lleol ddangos sut maent yn bwriadu cefnogi a hyrwyddo twf addysg Gymraeg yn eu hardaloedd. Bydd gofyn o hyd iddynt ddarparu gwybodaeth ategol, gan gynnwys data yn ymwneud â faint o blant sy'n derbyn addysg Gymraeg a faint sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf).
- Bydd Llywodraeth Cymru yn asesu pob cais Rhyddid Gwybodaeth yn unol â phroses y cytunwyd arni, gan gynnwys cwblhau asesiad trylwyr o'r cais er mwyn penderfynu: a yw'r wybodaeth gennym; pa mor briodol yw'r cais Rhyddid Gwybodaeth; a'r terfyn amser derbyniol ar gyfer trafod ein hasedau gwybodaeth yn briodol er mwyn darparu gwybodaeth. Os ydym yn cydymffurfio â'r cais, byddwn yn casglu'r wybodaeth berthnasol a'i harchwilio er mwyn nodi pa ddeddfau sy'n berthnasol, a byddwn yn ymateb o fewn 20 diwrnod.
- Bydd elfen o'r fframwaith gwerthuso ac atebolrwydd newydd sy'n cael ei gyflwyno mewn ysgolion yn becyn cymorth hunanwerthuso, a bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd ysgolion yn derbyn yr hyfforddiant gofynnol a'r holl wybodaeth er mwyn ei ddefnyddio. Bydd cyfres newydd o ddangosyddion ansawdd yn gysylltiedig â hyn. Defnyddir Asesiadau Athrawon at ddibenion asesu ffurfiannol h.y. fel bod athrawon yn gallu asesu cynnydd disgyblion unigol.
- Mae'r cynnig hwn yn un o'n newidiadau dros dro allweddol sy'n dangos bwriadau Llywodraeth Cymru i drosglwyddo ymreolaeth i athrawon a phenaethiaid wrth symud tuag at system â mwy o sybsidiaredd. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn un hirdymor gan ei bod yn ymwneud â newid diwylliant, a hwn fydd y cam cyntaf yn y broses honno.

Cwestiwn 3

C3.	A oes unrhyw beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod asesu yn cael ei ddefnyddio i lywio dysgu?
-----	--

Dadansoddiad cryno

Ni wnaeth 36 o ymatebwyr (40%) ateb C3; ysgrifennodd un ymatebodd 'dim sylw'.

Themâu cyffredin

- Yr angen i sicrhau nad yw consortia a chynghorwyr herio yn gofyn am wybodaeth ychwanegol; eu bod yn derbyn targedau a gyflwynir gan ysgolion fel data diwedd y Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol, gan eu bod yn seiliedig ar farn broffesiynol athrawon ar sail gwybodaeth am eu disgyblion.
- Pwysleisio agweddau tuag at ddysgu. Bydd plant sydd ag agweddau negyddol tuag at ddysgu neu ymddygiad gwael yn ei chael yn anodd bob amser. Mae angen defnyddio un dull asesu sydd naill ai'n seiliedig ar asesiadau athrawon neu ar brofion.
- Hyrwyddo Asesu ar gyfer Dysgu, gan ganolbwyntio ar ddatblygu arferion addysgu Asesu ar gyfer Dysgu hynod effeithiol.
- Darparu modd o gyfleu a rhannu arferion da wrth i ysgolion ddatblygu systemau newydd.

Roedd un ymatebydd yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r cyfle hwn i sicrhau mwy o ryddid i athrawon ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol er mwyn mabwysiadu dulliau asesu sy'n darparu gwybodaeth a data ystyrlon iddynt yn ymwneud â chynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae'n credu y bydd angen cynnwys Estyn yn y broses hon er mwyn sicrhau bod canlyniadau'r adolygiad yn cael eu rhoi ar waith mewn ysgolion. Hefyd, mae'r ymatebydd o'r farn y bydd angen i Lywodraeth Cymru gynyddu'r amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) er mwyn neilltuo amser ar gyfer myfyrion ynghylch addysgeg, a chyflwyno hawl dan gontract ar gyfer dysgu proffesiynol yn ystod yr wythnos addysgu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu fframwaith asesu, gwerthuso a gwella newydd. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau'n cael eu hystyried ar bob lefel o'r system addysg, gan gynnwys Estyn a Chonsortia. Dylai diffiniadau cliriach osgoi ceisiadau lluosog am wybodaeth.
- Mae gwaith ymchwil ledled y byd wedi dangos bod Asesu ar gyfer Dysgu (AfL) yn ffordd effeithiol o gyflawni amcanion ar gyfer perfformiad uchel a thegwch uchel, ac ar gyfer rhoi'r modd i ddysgwyr fod yn ddysgwyr gydol oes. Rydym yn gwybod bod dysgwyr yn fwy tebygol o wella os ydynt yn derbyn adborth o

ansawdd uchel, yn deall eu sefyllfa bresennol o ran dysgu, yn gwybod beth yw eu camau nesaf, a sut i gymryd y camau hynny.

- Bydd ein trefniadau asesu yn y dyfodol yn rhoi blaenoriaeth i Asesu ar gyfer Dysgu a defnyddio asesiadau fel modd o lywio addysgu a dysgu gwell. Mewn gwirionedd, addysgu ymatebol yw AfL. Mae'n bont rhwng addysgu a sut rydym yn canfod a yw gweithgareddau a phrofiadau yn yr ystafell ddsbarth wedi esgor ar y dysgu a fwriadwyd. Mae'n adnodd pwerus sy'n gallu ysgogi cynnydd a gwella cyflawniad dysgwyr o bob math.
- Rydym wedi cynyddu cyllid er mwyn cefnogi rhaglen waith i wella ansawdd Aseuadau Athrawon. Bydd y rhaglen yn datblygu gwaith yr arloeswyr asesu a chynnydd, gan greu cysylltiadau â'r ysgolion arloesi dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau synergedd â gweithgareddau Asesu ar gyfer Dysgu sy'n cael eu darparu fel rhan o'r grant adeiladu capasiti bloc. Hefyd, byddwn ni'n cynnwys y broses ffurfiannol o olrhain gwybodaeth yn yr ystafell ddsbarth er mwyn addasu ymarfer a hyrwyddo dysgu ym mhob rhan o'r ysgol, marcio effeithiol, cynllunio asesiadau gan gyd-ddisgyblion a hunanasesiadau.
- Fel rhan o'r newidiadau i'n trefniadau asesu, bydd asesiadau personol ar-lein yn disodli profion darllen a rhifedd papur. Yn yr un modd â'r profion papur, bydd yr asesiadau personol yn darparu gwybodaeth am sgiliau a chynnydd dysgwyr i'w defnyddio gydag Aseuadau Athrawon. Bydd asesiadau personol yn cynnig gwelliannau sylweddol trwy ddarparu profiad rhyngweithiol ac wedi ei deilwra i ennyn diddordeb dysgwyr, a'r cyfle i ysgolion eu defnyddio ar adeg a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar addysgu a dysgu yn eu barn nhw. Byddant yn darparu adborth o ansawdd uchel i ddysgwyr ac athrawon, ac yn darparu adnodd i athrawon gynllunio'r camau nesaf ar gyfer unigolion a dosbarthiadau cyfan.
- Un o elfennau allweddol y fframwaith asesu, gwerthuso a gwella newydd yw'r broses o ddatblygu pecyn cymorth cenedlaethol ar gyfer hunanwerthuso a gwella cynlluniau ysgolion. Mae Estyn a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn arwain ar hyn. Byddant yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn datblygu'r pecyn cymorth ar sail enghreifftiau rhyngwladol, yn ogystal â defnyddio adnoddau a phhecynnau sydd eisoes ar gael yng Nghymru.
- Mae Estyn yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg. Hefyd, mae'r Athro Donaldson yn cynnal adolygiad o Estyn ar hyn o bryd, a bydd yn cyhoeddi adroddiad ym mis Ebrill.

C4	Aseiad Effaith Rheoleiddiol			
	A ydych yn ymwybodol o unrhyw heriau neu effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i'r newid y credwch eu bod ar goll o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, yn eich maes diddordeb penodol chi?			
Ydw	Nac ydw	Dim ymateb/gwag	Sylw yn unig*	Cyfanswm
8	13	68	16	89

Cwestiwn 4

*Mae'r 16 o ymatebion a gyfrifir yma wedi'u dyblygu yn y maes ymateb/gwag gan eu bod wedi dewis ymateb i ran o'r cwestiwn yn unig.

Dadansoddiad cryno

Effeithiau cadarnhaol

- Llwyth gwaith yn lleihau o safbwynt ceisiadau i greu data/dyblygu data.
- Bydd defnyddio aseuadau at ddibenion gwybodaeth yn hytrach nag atebolrwydd, a sicrhau bod aseuadau yn canolbwyntio ar ddysgu, yn lleihau pwysau ar ysgolion a gweithwyr proffesiynol.
- Gall y broses o gymharu ysgolion lleol gael effaith niweidiol iawn, yn enwedig mewn dosbarthiadau o blant ag Anawsterau Dysgu Cymhleth sy'n cynnwys disgyblion o leoliadau gwahanol na allant wneud cynnydd yn eu hysgolion prif ffrwd lleol. Mae cynnwys y data hwn yn y data a gyhoeddir gan ysgolion yn creu heriau enfawr a diangen iddynt.
- Bydd llai o bwysau ar ysgolion ar ôl cyflwyno'r newidiadau.

Heriau

- Mae angen nodi a mynd i'r afael â'r amser anghymesur sy'n cael ei neilltuo gan athrawon i farcio gwaith (pan nad hwn yw'r dull mwyaf effeithiol o roi adborth).
- Mae angen defnyddio myfyrio ynghylch addysgeg tebyg gyda data Prawf Cenedlaethol Cymru – dylid ei ddefnyddio at ei ddiben penodol (cynorthwyo a herio plant) nid fel proses atebolrwydd gan gonsortia.
- Bydd yn cymryd amser i rieni a llywodraethwyr ddeall y newid diwylliant. Maent wedi arfer â'r elfen gymharol a chystadleuol sy'n cael ei chreu, a byddant yn awyddus i gael mathau eraill o wybodaeth gymharol fel sylfaen i'w barn neu eu dewisiadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Dyma amser heriol ar gyfer y system addysg yn ei chyfanrwydd yng Nghymru, ac rydym yn awyddus i gynorthwyo athrawon a phenaethiaid a chynyddu'r parch tuag atynt.
- Mae'n bwysig nad yw athrawon a phenaethiaid yn cael eu gorlwytho a bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu prif rôl, sef hwyluso addysgu a dysgu. Mae'n bwysig lleihau llwyth gwaith diangen a galluogi athrawon i dreulio mwy o amser yn cynorthwyo dysgu disgyblion.
- Er mwyn cydnabod hyn, rydym wedi gweithio'n helaeth gyda'n rhanddeiliaid, consortia, awdurdodau lleol, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, awdurdodau Esgobaethol, penaethiaid ac athrawon a'u cymdeithasau perthnasol, er mwyn datblygu canllawiau ar arferion gorau ar gyfer marcio ac asesu.
- Mae athrawon yn gwneud cyfraniad allweddol at godi safonau yn yr ystafell ddosbarth, ac rydym wedi ymgysylltu'n agosach o lawer â'r proffesiwn. Ein nod yw datblygu gallu a lleihau llwyth gwaith gormodol er mwyn gwella safonau. I wneud hyn, rhaid lleihau biwrocratiaeth, gwella'r broses o roi polisïau ar waith, a defnyddio dulliau gwaith gwell.
- Rydym yn gwybod nad oes un ateb i leihau llwyth gwaith diangen gan fod hwn yn fater cymhleth. Bydd angen defnyddio dulliau gweithredu amrywiol sy'n cynnwys nifer o gamau ar wahân ond cysylltiedig.
- Mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd cywir rhwng ymddiried yn y proffesiwn a sicrhau bod y wybodaeth neu'r data priodol yn cael ei rannu â'r gynulleidfa berthnasol am y rhesymau cywir. Er enghraifft, bydd yn bwysig o hyd cyhoeddi ystadegau swyddogol er mwyn dangos ein safle cenedlaethol, ac mae'r ymateb i gwestiwn 5 yn disgrifio'r ystadegau swyddogol a gaiff eu cyhoeddi o hyd gan y Prif Ystadegydd. Mae timau polisi wrthi'n ystyried pa wybodaeth ychwanegol y gellid ei chyhoeddi ar lefel ysgol a rhanbarthol.

C5.	A ydych yn cytuno gydag argymhellion y Prif Ystadegydd ar gyfer ystadegau swyddogol fel y'u nodwyd ym mharagraffau 35 i 39 y ddogfen hon?			
Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
26	8	20	35	89

Cwestiwn 5

Dadansoddiad cryno

Dim ond dau o'r 26 o ymatebwyr a gytunodd â'r Prif Ystadegydd a aeth ymlaen i gynnig rhagor o sylwadau.

Nododd un ymatebydd mai'r dulliau o ddefnyddio'r data yn hytrach na'r data ei hun yw'r broblem weithiau. Credai y gallai Llywodraeth Cymru wynebu problem pe bai rhywun yn mynd ati i gasglu'r data er mwyn dangos 'gostyngiad' mewn safonau. Nododd yr ymatebydd arall y bydd data Cenedlaethol yn parhau i fod ar gael at ddibenion ystadegol, ond na fyddai'n cael ei ddefnyddio at ddibenion atebolrwydd ar lefel ysgol.

O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynigion, cafwyd sylwadau eraill gan dri ohonynt yn ymwneud ag argaeledd data ar yr iaith Gymraeg, natur amwys y cynigion ac a ydynt yn gyson â deddfwriaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi amrywiaeth o ystadegau swyddogol ar lefel genedlaethol a rhai lefelau eraill yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Bydd hyn yn helpu i fonitro tueddiadau cenedlaethol a deall perfformiad grwpiau o ddysgwyr gwahanol.

Mae'r cynigion hyn yn berthnasol i gyhoeddi data ar asesiadau athrawon a Phrofion Cenedlaethol Cymru yn unig. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi data yn ymwneud â'r meysydd canlynol ar yr holl lefelau priodol:

- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
- Presenoldeb a gwahardd disgyblion o ysgolion
- Canlyniadau arholiadau cyhoeddus yn CA4 ac ar ôl hynny

Ar gyfer asesiadau athrawon a Phrofion Cenedlaethol Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau swyddogol ar y lefelau canlynol yn unig:

- Cymru
- Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is
- Etholaeth Cynulliad ac Etholaeth Seneddol
- Unrhyw lefel arall nad yw'n gysylltiedig â gweinyddu addysg yng Nghymru.

Bydd y broses o gyhoeddi ystadegau ar y lefelau hyn yn cynorthwyo anghenion defnyddwyr mewn sawl maes arall.

Ni fyddwn yn cyhoeddi data ar asesiadau athrawon neu'r Profion Cenedlaethol fel mater o drefn ar y lefelau canlynol:

- Ysgolion (gan gynnwys y data ar Fy Ysgol Leol)
- Awdurdodau Lleol
- Consortia Addysg Rhanbarthol

Yr unig eithriadau i hyn fydd data yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Gweler cwestiwn 6 am ragor o fanylion.

Noder y bydd ein holl ddata ar gyfer unrhyw lefel ar gael o hyd ar gais, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein tudalen ceisiadau ystadegol ad hoc. Hefyd, byddwn yn parhau i ddarparu data i sefydliadau allanol at ddibenion ymchwil a gwerthuso.

Cwestiwn 6

C6.	<p>Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau a'r diwygiadau i'r rheoliadau yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:</p> <p>i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Pa effeithiau fyddant yn eu cael yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?</p>
-----	--

Dadansoddiad cryno

Ni chafwyd ateb gan 50 o'r holl ymatebion (56%).

Roedd 13 o ymatebwyr (15%) a gyflwynodd sylwadau yn credu na fyddai unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Dywedodd un ymatebydd na fyddai unrhyw effaith ar ei ysgol, ond nid oedd wedi cynnwys unrhyw sylwadau ychwanegol. Roedd un ymatebydd a nododd na fyddai unrhyw effaith yn poeni am sgil effeithiau'r cynigion ar y gallu i fesur cynnydd yn ymwneud â pholisïau Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg mewn addysg. Awgrymodd y gellid cyhoeddi Bwletin Ystadegol i fynd i'r afael â'r pryder.

Er mwyn sicrhau bod mwy o gyfleoedd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, teimlwyd bod angen rhoi pwyslais ar siarad yr iaith ac ar gyfleu ei bod yn iaith fyw. Mewn ysgolion cynradd ac ar ddechrau CA3, nodwyd bod disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg yn tueddu i dreulio gormod o amser yn ysgrifennu a dim digon o amser yn defnyddio'r iaith mewn sefyllfaedd gweithredol.

Nododd rhai ymatebwyr fod data ar asesiadau wedi'i gynnwys ar hyn o bryd fel rhan o ofyniad Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol gwblhau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ym marn yr ymatebwyr hyn, heb ddata ar lefel awdurdodau lleol, ni fydd modd olrhain cynnydd targedau a bydd y cynlluniau'n ddiwerth. Nodwyd bod y data yn sylfaen i'r targedau allweddol yn Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg* ac y byddai disgwyl i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y data wrth ddatblygu cynlluniau i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Ni fydd **unrhyw newid** i'r broses gasglu neu unrhyw newid i'r wybodaeth a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru er mwyn asesu effeithiolrwydd a datblygiad polisi.
- Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r canlynol ar lefel genedlaethol ac ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol;
 - data o'r Cyfrifiad Ysgolion ar addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a rhuglder yn y Gymraeg
 - canlyniadau arholiadau cyhoeddus ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith ar lefel TGAU ac uwch
 - nifer yr asesiadau athrawon ar gyfer Cymraeg fel pwnc.

- Ni fyddwn yn cyhoeddi canlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer y Gymraeg fel pwnc islaw'r lefel genedlaethol, ac eithrio at ddibenion ystadegau swyddogol fel y nodir yn adran 5.
- Mae Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft. Er y bydd y trefniadau cyhoeddi yn newid ar gyfer data Aseidiadau Athrawon islaw lefel genedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu'r data hwn gan awdurdodau lleol. Mae swyddogion wedi gweithio'n agos i sicrhau bod data ar gael o hyd a bod modd ei ddefnyddio i fesur cynnydd tuag at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a bod unrhyw broblemau'n cael eu lleihau. Bydd data ar nifer y plant sy'n cael eu hasesu ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) yn parhau i gael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Hefyd, bydd data ar iaith asesiadau yn parhau i gael ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol.
- Hefyd, fel rhan o'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddangos sut maent yn bwriadu gwella ac ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn paratoi cynlluniau addysg cyfrwng Cymraeg mewn ffordd mor strategol â phosibl, rydym yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio'r ffynonellau data sydd ar gael i ddarparu llinellau sylfaen a gosod targedau.
- Er enghraifft, mae'n ofynnol i awdurdod lleol ddangos yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sut mae'n cynyddu capasiti yn y sector cyfrwng Cymraeg trwy gynnwys nifer/canran y dysgwyr sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, neu'r nifer/canran a asesir trwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf). Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am y wybodaeth hon er mwyn deall y wybodaeth gyd-destunol a'r wybodaeth gefndir sy'n sylfaen i'r targedau. Hefyd, mae'n rhoi darlun i ni o sut mae awdurdodau lleol yn cynyddu ac yn datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg, ac effaith hynny ar y darlun cenedlaethol. Felly, bydd angen y data hwn o hyd ar Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r elfen hon o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Cwestiwn 7

C7.	Eglurwch hefyd sut y credwch y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig: i) fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ii) fel nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
-----	---

Dadansoddiad cryno

Ni chafwyd ymateb gan 60 o'r holl ymatebwyr (67.4%). Roedd sylwadau'r ymatebwyr yn cynnwys:

- Os nad yw diwygiadau i'r rheoliadau yn amharu ar allu'r rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg, neu sydd am ddefnyddio'r Gymraeg, yn yr holl weithgareddau a phrosesau cysylltiedig, dylai'r effeithiau ar yr iaith fod yn gadarnhaol.
- Mae'n rhaid sicrhau bod cyhoeddiadau ar gael yn ddwyieithog, gan addasu amserlenni er mwyn caniatáu digon o amser i gyfieithu'r gwaith.
- Mae newid polisi yn golygu bod ysgolion yn gallu cynnig cwricwlwm ehangach, gan gynnwys hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r llwyddiant o ran sicrhau safonau uwch wrth gaffael y Gymraeg i'w briodoli mwy i wella adnoddau a chymorth ar gyfer athrawon.
- Mae angen i ysgolion ac ymarferwyr ddatblygu lefelau o hyder yn y Gymraeg ymysg athrawon a dysgwyr; mae angen sicrhau bod pobl yn cael hyfforddiant digonol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
- Dylid dileu'r gofyniad gorfodol i ddarparu gwersi Cymraeg.
- Mae pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na siaradwyr Cymraeg yn aml. Mae mwy o swyddi, a swyddi gwell, ar gael i siaradwyr Cymraeg oherwydd bod llai o bobl yn ymgeisio amdanynt. Yn aml, mae hyn yn digwydd ar draul ymgeiswyr eraill, mwy addas.
- Weithiau mae angen i Lywodraeth Cymru dderbyn nad yw'r setiau sgiliau gorau yn bodoli yng Nghymru a bod angen denu arbenigedd allanol er mwyn gwella'r system fewnol.
- A oes angen newid y polisi o ystyried y bydd y data yn parhau i gael ei gasglu beth bynnag? Mae'n ymddangos nad oes unrhyw reswm dros roi'r gorau i gyhoeddi ystadegau ar yr iaith Gymraeg ar lefel awdurdodau lleol bob blwyddyn.
- Os yw data ar yr iaith Gymraeg yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn hytrach na'i feincnodi ar lefel genedlaethol, mae yna

berygl y bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu cymharu ag ychydig o ysgolion yn unig mewn rhai ardaloedd.

- Mae'r ddogfen ymgynghori yn darparu sail resymegol addysgeg ar gyfer y diwygiadau dan sylw gan ei fod yn ceisio gwella ansawdd dysgu mewn ysgolion, yn ogystal â phrofiad a pherfformiad dysgwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Mae'n hanfodol bod ein system addysg yn darparu digon o ymarferwyr â sgiliau iaith Gymraeg o ansawdd uchel a methodolegau addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog cymwys.
- Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn cynnig hyfforddiant mewn methodoleg a'r iaith Gymraeg ar gyfer athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd, cynorthwyrwyr addysgu, darlithwyr Addysg Bellach a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n gweithio yng Nghymru.
- Mae'r Cynllun yn rhoi cyfle i ymarferwyr wella eu sgiliau Cymraeg trwy gynnig cyrsiau ar dair lefel ar sail hyfedredd ac iaith y lleoliad dysgu presennol. Mae'r holl gyrsiau ar gael am ddim. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn ad-dalu costau athrawon cyflenwi a chostau teithio mynychwyr.
- Mae adolygiad diweddar o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi nodi problemau â'r ddeddfwriaeth bresennol sydd ar waith i helpu i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad, bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud yn 2018-19 i adolygu'r ddeddfwriaeth. Bydd bwrdd cynghori annibynnol yn goruchwyllo'r gwaith hwn.

Cwestiwn 8

C8.	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.
-----	--

Dadansoddiad cryno

Ni chafwyd ateb gan 65 o'r ymatebion (73%). Ysgrifennwyd y gair 'Dim' gan bedwar ymatebydd, ac ni wnaeth dau ymatebydd ysgrifennu unrhyw beth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Gan na chodwyd unrhyw faterion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, nid yw'n briodol ymateb.

Atodiad: Rhestr o ymatebwyr yn ôl sefydliad

1. Dienw
2. Ysgol Iau Penygraig
3. Dienw
4. Ysgol Merllyn
5. Ysgol Gynradd Maesybryn
6. Dienw
7. Ysgol Gynradd Mount Pleasant
8. Ysgolion Cynradd yr Eglwys yng Nghymru Llangedwyn a Llanfechain
9. Dienw
10. Dienw
11. Ysgol Gynradd y Rofft
12. Dienw
13. Ysgol Gynradd Llansannor
14. Dienw
15. Awdurdod Lleol Ceredigion
16. Dienw
17. Dienw
18. Dienw
19. Dienw
20. Dienw
21. Dienw
22. Dienw
23. Dienw
24. Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn
25. Ysgol Pont Siôn Norton
26. Dienw
27. Dienw
28. Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn
29. Dienw
30. Ysgol Llanefydd
31. Ysgol Pencae
32. Dienw
33. Ddim yn berthnasol
34. Ysgol Maes y Mynydd
35. Dienw
36. Dienw
37. YP
38. Dienw
39. Comisiynydd y Gymraeg
40. Ysgol Pen Y Bryn
41. Dienw
42. Ddim yn berthnasol
43. Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Archesgob Rowan Williams
44. Cyngor Sir y Fflint
45. Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
46. Ysgol Gynradd Conwy
47. Estyn
48. Ysgol Penycae, Wrecsam

49. Stafiaith
50. Ddim yn berthnasol
51. Ddim yn berthnasol
52. Consortiwm Canolbarth y De
53. Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (Cymru)
54. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
55. Dienw
56. Dienw
57. Dienw
58. Dienw
59. Dienw
60. Dienw
61. Dienw
62. Dienw
63. Dienw
64. Dienw
65. Dienw
66. Dienw
67. Dienw
68. Dienw
69. Dienw
70. Dienw
71. Dienw
72. Dienw
73. Dienw
74. Dienw
75. Dienw
76. Dienw
77. Dienw
78. Dienw
79. EAS
80. ASCL Cymru
81. Dienw
82. GwE
83. Dienw
84. Dienw
85. Cyngor Abertawe
86. Dienw
87. NEU Cymru
88. Dienw
89. UCAC